# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 21ain o Fai 2019 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng R Gallie, P Walton, J Phillips, G Evans, D Lewis, W Evans, J Lewis (CSC) and K Bowen (clerc)

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng H James.

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfodydd Mawrth 19 a Ebrill 11 a derbyniwyd hwy yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDORDEB:** Cyng P Walton a W Evans yn materion yn codi – Ysgol Bro Brynach cais am gymorth ariannol.

**MATERION YN CODI:**

(Datganiodd Cyng P Walton a W Evans ddiddordeb a chymeront ddim rhan yn y drafodaeth) Roedd y Cyngor eisioes wedi cadarnhau cais oddi wrth Ysgol Bro Brynach am gymorth ariannol efo gwaith adeiladu anghenreidiol. Cytunodd CSC i ariannu hyn a gofynodd YBB os fyddai arian y Cyngor yn gallu cael ei ddefnyddio at gost tanwydd olew. Penderfynodd y Cyngor ar ol trafodaeth hir i gyfrannu £250.00.

**ADRODDIAD PAGA:**

Mae adroddiad Panel Annibynnol ar Gydnbyddiaeth Ariannol am 2019/20 yn ei gwneud hi'n fandadol i gynghorau dalu lwfans sylfaenol o £150.00 i bob aelod heblaw eu bod yn penderfynnu optio allan. Penderfynodd pob cynghorydd oedd yn bresennol i optio allan o dderbyn y lwfans a chwblhau datganiad optio allan. Clerc i gysylltu efo cynghorwyr oedd ddim yn bresennol am eu penderfyniad.

**ARCHWILIAD MEWNOL**:

Mae'r archwiliad mewnol wedi ei wneud a adroddiad wedi ei dderbyn. Roedd yna ddim materion yn codi ond fe argymhellwyd gan yr archwilydd mewnol y dylai cyflog y clerc gael ei dalu yn y flwyddyn ariannnol berthnasol. Derbyniodd y Cyngor yr argymhelliad. Cyflwynodd y clerc y Dogfennau Dychwelyd Blynyddol am y flwyddyn yn gorffen Mawrth 31 2019. Fe wnaeth y Cyngor hefyd gymeradwyo y cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethol Blynyddol.

**HYFFORDDIANT CÔD YMDDYGIAD:**

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth CSC ynglyn a sesiynau hyfforddi a'r Côd Ymddygiad i'w cynnal yn ystod Gorffennaf 2019. Cyng W Evans, R Gallie, P Walton a J Phillips i fynychu.

**RHEOLAU ARIANNOL:**

Hysbysodd y clerc y Cyngor fod yna ddiweddariad i'r rheolau ariannol roedd y Cyngor yn defnyddio ar hun o bryd. Cymeradwyodd y Cyngor fabwysiadu y diweddariad.

**GOHEBIAETH:**

Gofynodd Un Llais Cymru am fanylion cyswllt cynghorydd i gynrychiolu'r cyngor yn ei cyfarfodydd Pwyllgor Rhanbarthol chwarterol. Cytunodd Cyng P Walton i gael ei enwebu.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| D.H.&J.M. James – rhent tir | £610.50 |
| Mr &Mrs Bailey – rhent tir | £10.00 |
| G.E.& J.A. James – rhent tir | £1303.50 |
| Messrs Robinson – rhent tir | £469.50 |
| CSC – Praesept taliad 1af | £2666.66 |
| HMRC – ad-daliad TAW 2018/19 | £451.43 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| ICO – adnewyddu tâl cofrestru | £35.00 |
| VisionICT – cynnal gwefan | £300.00 |
| SSE – trydan i'r neuadd gymuned 2/1/19 – 23/4/19 | £290.52 |
| Rosemarie A Davies – archwiliad mewnol 2018/19 | £57.60d |
| BHIB – yswiriant cyngor 1/6/19 – 31/5/20 | £615.46 |

**CYNLLUNIO:** Dim

**U.F.A.**

Derbyniwyd rhagor o wybodaeth ynglyn ceisio am grant loteri i brynu diffibriliwr. Trafodwyd hefyd lleoliadau posib i roddi diffibrilwyr.

Cytunod cynghorwyr i symud dyddiad y cyfarfod nesaf i Gorffennaf 9fed i beidio gwrthdaro a'r sesiwn hyfforddi côd ymddygiad.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe ddiolchodd y Gadair i bawb oedd wedi mynychu a datganodd y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 9fed o Orffennaf am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**